Ffederasiwn y Busnesau Bach

Mudiad Busnes Arweiniol y DU

Cefnogi Busnes Bach;
Cefnogi Twf Cynaliadwy

Maniffesto Etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

FSB Cymru

2011

Cynnwys

Cyflwyniad & Aelodaeth FSB Cymru

Rhaglen Adnewyddu'r Economi (ERP)

Cynnal Cysylltiadau

Cymorth i Fusnesau

Cymorth Iaith Gymraeg

Cymorth Hyfforddi

Cymorth Ariannol

Cymorth Gwyrdd

Cymorth Caffael

Cymorth yn erbyn Troseddau

Cymorth Manwerthu

Cymorth Seilwaith

Cymorth Trethi

Proffil Aelodaeth FSB Cymru

Cyflwyniad & Aelodaeth FSB Cymru

Cyflwyniad

Bwriedir y Maniffesto hwn fel canllaw i Lywodraeth nesaf Cymru o ran yr hyn sydd ei angen i gefnogi'r mwyafrif o fusnesau yng Nghymru, sydd ar gyfartaledd yn rhai bach, gyda llai na deg o weithwyr. Cyflwynir yr argymhellion o fewn y Maniffesto hwn gan gydnabod y cyfyngiadau cyllidebol y bydd Llywodraeth nesaf Cymru'n gweithredu o'u mewn a'r pwysau ariannol anodd y mae busnesau bach yn eu profi o ganlyniad i effeithiau'r dirwasgiad. Dyna pam fod pwyslais ar wella polisïau presennol Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag awgrymiadau ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru yn sgil cyhoeddi Rhaglen Adnewyddu'r Economi.

Rydym yn cadw mewn cof y bydd, yn dilyn lansiad swyddogol y Maniffesto hwn ar 9 Chwefror, newidiadau strwythurol yn parhau o fewn adrannau Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag i strategaethau a rhaglenni gwaith Llywodraeth Cymru, heb sôn am Refferendwm ar ddyfodol setliad pwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Mawrth. Bwriedir i'r Maniffesto hwn fod yn ddogfen hyblyg i ymateb i'r amgylchiadau unigryw hyn. Fe fydd y Maniffesto, gan gynnwys unrhyw ddiweddariadau, ar gael ar ein gwefan: www.fsb.org.uk/cymru.

Gobeithiwn y bydd y Maniffesto hwn yn gaffaeliad gwerthfawr i Lywodraeth nesaf Cymru, ac edrychwn ymlaen at weithio gyda phob plaid yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, i hyrwyddo'r blaenoriaethau a fydd yn rhoi cymorth gwirioneddol i'n busnesau bach ffynnu, ac felly sicrhau y bydd ein heconomi'n wirioneddol gynaliadwy.

Janet Jones, Cadeirydd Polisi Cymru

Aelodaeth FSB Cymru

Ffederasiwn y Busnesau Bach (FSB) yw sefydliad busnes mwyaf y Deyrnas Unedig, sy'n cynrychioli buddiannau dros 210,000 o aelodau ledled y Deyrnas Unedig, gyda thua 10,000 ohonynt wedi eu lleoli yng Nghymru. Mae aelodaeth yr FSB yn amrywiol ac felly mae'n adlewyrchiad dibynadwy o'r mwyafrif o Fusnesau Bach a Chanolig, sy'n cyfrif am 99% o stoc busnes yng Nghymru. Gan fod y mwyafrif llethol o fusnesau yng Nghymru'n Fusnesau Bach a Chanolig, mae'n bwysig fod safbwyntiau'r sector hwn yn cael eu cynrychioli'n gryf.

Rhaglen Adnewyddu'r Economi (ERP)

Mae'r FSB wedi codi llawer o bryderon y bydd Rhaglen Adnewyddu'r Economi o fudd i fusnesau mwy ar draul y mwyafrif o fusnesau cynhenid Cymru. Hyd yma, nid yw ein hofnau wedi cael eu tawelu, er enghraifft mae'r Rhaglen yn bwriadu canolbwyntio cymorth busnes ar chwe sector allweddol: Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Ynni a'r amgylchedd, Deunyddiau a gweithgynhyrchu blaengar, Diwydiannau creadigol, Gwyddorau bywyd, Gwasanaethau ariannol a phroffesiynol. Fodd bynnag, mae teimladau cryf o fewn busnesau llai fod busnesau gyda photensial i dyfu ym mhob sector, a thrwy fod y 'cwmnïau angori' yn fwy tebygol o fod yn fusnesau mwy, fe fydd hyn yn niweidiol i economi Cymru. Argymhellodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog y dull hwn o ganolbwyntio ar sectorau penodol, a phenderfynwyd ar y chwech heb unrhyw ymgynghori. Mae'r FSB yn bryderus ynghylch y dewis o sectorau, y nifer o sectorau yn ogystal â'r ffaith fod y sectorau a ddewiswyd yn fwy tebygol o ffafrio cwmnïau mwy.

Fodd bynnag, o fewn strwythur presennol panelau'r sectorau, mae gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod busnesau bach yn dod yn rhan annatod o'u holl waith, a byddem yn annog panel pob sector i gyflawni ymchwil benodol i botensial a chyfleoedd cwmnïau bach yn neilltuol. Mae hyn yn hanfodol bwysig gan fod gweithredu cynlluniau Rhaglen Adnewyddu'r Economi'n llwyddiannus o safbwynt meysydd holl bwysig fel y cadwynau cyflenwi a'r systemau ansawdd yn dibynnu ar fod y panelau'n deall y mwyafrif o fusnesau yng Nghymru, yn lle gweithio gyda'r cwmnïau 'angori' mwy yn unig.

- Mae angen i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth fapio'r hyn sydd wedi newid yn yr adran a'r hyn y bwriadant i gymryd ei le.
- Mae angen deialog barhaus gyda rhanddeiliaid i weld eu hymateb i weithredu Rhaglen Adnewyddu'r Economi.
- Mae angen i Adran yr Economi a Thrafnidiaeth ddangos yn glir pa gymorth sydd ar gael i fusnesau bach, yn enwedig y rhai y tu allan i banelau'r sectorau. Mae angen i fusnesau bach a chanolig gael eu sefydlu fel rhan annatod trwy Banelau'r Sectorau ac yn fwy cyffredinol o fewn Rhaglen Adnewyddu'r Economi.
- Mae angen monitro effeithiau Rhaglen Adnewyddu'r Economi, ac mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn ddigon hyblyg i newid eu dulliau gweithredu mewn ymateb i'r newidiadau yn yr economi. Mae angen i hyn gael ei wneud mewn cydweithrediad â'r partneriaid cymdeithasol.
- Mae angen creu Portffolio Gweinidog ar gyfer busnesau bach o fewn Llywodraeth Cymru. Byddai'r person hwn yn sicrhau bod anghenion pob busnes, nid cwmnïau mawr yn unig, yn cael eu hystyried yn llawn wrth benderfynu ar bolisi economaidd yn y dyfodol.

Cynnal Cysylltiadau

Mae angen gwell model ar gyfer cynnal, gweithredu ac ymwreiddio'r Cynllun Busnes trwy holl adrannau'r Llywodraeth. Mae angen i'r Cyngor newydd ar gyfer Adnewyddu'r Economi fod yn fforwm sy'n canolbwyntio ar weithredu, gan edrych ar ffyrdd o symud darnau allweddol o waith ymlaen ochr yn ochr â phartneriaid cymdeithasol eraill o fewn mecanweithiau a luniwyd i gyflawni hyn. Er mwyn cynnal cysylltiadau'n effeithiol mae angen dechrau'n gynnar ac adolygu cynnydd yn barhaus.

- Mae angen i ystadegau'r ONS ac ystadegau eraill ar economi Cymru gael eu cefnogi gan gasgliad o ddata helaethach er mwyn gallu monitro economi Cymru'n fwy effeithiol a gwneud penderfyniadau gwybodus ynghylch cynnydd. Er enghraifft gwell gwybodaeth ar gylchoedd economaidd a busnesau bach yng Nghymru.

- Mae Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn datgan bod yn rhaid i'r Cynllun Busnes "ystyried effaith gweithredu eu swyddogaethau ar fuddiannau busnes". Mae felly'n hanfodol y dylai pob deddfwriaeth newydd fod yn ddarostyngedig i asesiad o'r effaith ar fusnes a rhaid cynnal cysylltiadau o'r dechrau gyda byd busnes fel rhan o'r broses honno. Er enghraifft dylai'r ddeddfwriaeth ar yr ardoll ar fagiau untro fod wedi ymgynghori ar yr effeithiau ar fusnesau bach yn llawer cynt.

- Mae angen i Lywodraeth Cymru weithio ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru er mwyn sicrhau bod gorfodi deddfwriaeth gan Awdurdodau Lleol yn cael ei wneud yn rhesymol ac yn sensitif, ac nad yw'n cael ei ganfod fel ffordd syml o godi refeniw, fel er enghraifft, cyflwyno dirwyon am beidio ag arddangos arwyddion dim ysmygu neu'r ardoll bagiau untro a fydd yn cael ei gyflwyno ym mis Hydref 2011.

Cymorth i Fusnesau

Fe wnaethon ni ofyn i'n haelodau sut oedden nhw'n teimlo ynghylch y gwasanaeth Cymorth Hyblyg i Fusnes (FS4B), ac mewn arolwg yn ystod mis Awst 2010, dangoswyd bod 45% yn gwybod am y gwasanaeth, a bod 60% o'r rhai a oedd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn ei raddio fel un da. A'r brandio hwn bellach wedi cael ei ddiddymu, mae'n hanfodol fod busnesau bach yn gwybod lle i fynd am gyngor a chymorth, yn enwedig os ydynt y tu allan i'r chwe sector a ddewiswyd fel rhan o Raglen Adnewyddu Economi'r Llywodraeth.

- Mae ar fusnesau angen un lle i fynd i gael at gymorth busnes sydd wedi ei arwyddo'n glir ac mae angen gwneud ymchwil i ba wasanaethau a fyddai'n cael eu gwerthfawrogi fwyaf gan fusnesau bach.
- Mae ar fusnesau angen help sy'n seiliedig ar brosiectau, gyda ffordd o gael at arbenigwyr, gan gynnwys cyngor ac arfer gorau gan fusnesau eraill.
- Mae angen i gymorth dargedu twf o fewn cwmnïau sefydledig. Yn enwedig yn y cyfnod 12 – 24 mis, gan mai dyma'r angen y bydd busnesau penderfynu tyfu neu aros yn eu hunfan.
- Nid yw pob cymorth busnes yn gymorth ariannol nac o angenrheidrwydd yr hun a ystyrir yn draddodiadol fel cymorth busnes. Byddai cyngor ar gynllunio, atal troseddau a gwelliannau a chyfleoedd llesol i'r amgylchedd yn bwysig i fusnesau bach.
- Dylai Cynlluniau Datblygu Lleol gael mewnbwn gan fusnesau bach a chefnogi datblygiad economïau lleol; mae busnesau gwledig yn enwedig wedi cael eu tangynrychioli.
- Dylai unedau sydd mewn perchnogaeth gyhoeddus, megis canolfannau busnes, ddarparu rhwydwaith o gyfleusterau fforddiadwy, fel ystafelloedd cyfarfod, i fusnesau bach. Mae hyn yn arbennig o bwysig i bobl sy'n rhedeg busnesau o'u cartref gyfarfod â chwsmeriaid a rhwydweithio.
- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau parhau'r cymorth i weithredu'r Strategaeth Weithgynhyrchu.
- Mae angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo twristiaeth leol yn fwy effeithiol, o fewn Cymru a'r tu allan iddi. Mae angen i Ganolfannau Gwybodaeth fod yn symudol, er mwyn gallu cymryd lleol canolfannau sydd wedi cau, pryd bynnag a lle bynnag fo angen, pan nad yw arddangosiadau sgrin gyffwrdd ddim yn bosibilrwydd. Dylid datblygu atebion Technoleg Gwybodaeth arloesol, megis 'apps' Croeso Cymru, sy'n diweddaru'n awtomatig mewn cyrchfan, a dylai'r wybodaeth a gynhwysir allu cefnogi siopau a busnesau lleol.

Cymorth Iaith Gymraeg

Mae 27% o aelodau'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu busnes, ac o'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg, y prif ddefnydd yw cyfathrebu gyda chwsmeriaid a chyflenwyr (79%), cyfathrebu'n fewnol (39%), mewn arwyddion a dogfennaeth (37%), ac mewn gweithgareddau marchnata (35%). O'r aelodau hynny nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd, byddai gan 19% ddiddordeb mewn cymorth i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy rheolaidd. Y math o gymorth y teimlid y byddai'n fwyaf buddiol gan y rhai nad ydynt yn defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd fyddai cymorth ariannol (49%) a chymorth a chanllawiau ymarferol (40%).

- Mae felly ddadl dros Gymorth Busnes Iaith Gymraeg cydnabyddedig i gymryd lle darpariaeth bresennol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer busnesau bach sy'n dymuno'n wirfoddol defnyddio'r Gymraeg mewn busnes.

- Fe all fod angen ystyried beth fyddai ar gael i fusnesau sy'n dymuno'n wirfoddol ddiffinio eu bwriadau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog, i'r graddau y maent yn gallu neu y mae'n addas i'w busnes, ar gyfer eu cwsmeriaid. Mae safonau'n swnio'n ymrwymiad trymach na'r Cynlluniau Iaith Gymraeg presennol a gallent felly godi ofn ar y busnes bach a chanolig cyffredin.

- Efallai felly y byddai'n well i'r rôl o hyrwyddo a chefnogi'r iaith gael ei wahanu oddi wrth rôl lywodraethu'r Comisiynydd o safbwynt gosod y safonau a chraffu ar y naill law ac annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg ar y llaw arall.

- Dylai fod cynrychiolaeth o fusnesau bach ar y Cyngor Partneriaeth Iaith Gymraeg arfaethedig.

- Er mwyn i fusnesau, yn enwedig rhai bach a chanolig, fod yn hyderus yn y cymorth y gallant ei dderbyn gan gyfieithwyr / dehonglwyr Cymraeg <> Saesneg, mae angen rhoi sylw i'r materion canlynol;

1. Ieithyddol: angen am waith mwy arbenigol a pharhaus mewn creu a safoni terminoleg Gymraeg gydag anghenion y sector preifat mewn cof ac mewn lledaenu arfer gorau ymysg cyfieithwyr / dehonglwyr.

2. Proffesiynol: angen i safonau proffesiynoldeb gael eu codi, eu cydnabod, eu hachredu a'u monitro o fewn y diwydiant cyfieithu / dehongli Cymraeg.

Cymorth Hyfforddi

Mae ein hymchwil yn awgrymu mai'r hyn y mae perchnogion busnesau yng Nghymru'n ei ddymuno'n bennaf yw hyfforddiant ym meysydd Marchnata / Cysylltiadau Cyhoeddus, materion ariannol a Thechnoleg Gwybodaeth. Ar ben hyn, teimla busnesau bach a chanolig y byddai hyfforddiant iechyd a diogelwch hefyd yn fuddiol. O safbwynt hyfforddi gweithwyr, teimla aelodau y byddai eu staff yn elwa o hyfforddiant mewn gwasanaethu cwsmeriaid, cyfathrebu, Technoleg Gwybodaeth a materion iechyd a diogelwch. Rydym yn croesawu penderfyniad Llywodraeth Cymru i flaenoriaethu gwariant ar sgiliau a phrentisiaethau yng nghyhoeddiad y gyllideb.

- Byddai ymgorffori elfennau i hyfforddiant perchnogion busnesau fel y gallant drosglwyddo gwybodaeth ymlaen i hyfforddi staff eu hunain, felly o fudd i aelodau a staff fel ei gilydd.
- Sicrhau bod sgiliau cyflogadwyedd yn cael eu hymgorffori i addysg a hyfforddiant, yn enwedig ar y cam cyn prentisiaethau.
- Ehangu a hyrwyddo prentisiaethau ar y cyd a gwella'r ffordd o drafod dewisiadau hyfforddi gyda chyflogwyr, gan gynnwys ffyrdd o gydnabod hyfforddiant mewnol sy'n digwydd eisoes.
- Monitro a llenwi bylchau sgiliau, megis mewn Technoleg Gwybodaeth, trwy gynnal cysylltiadau gwell â busnesau.
- Mynd i'r afael ag anghydbwysedd rhyw mewn hyfforddiant sgiliau er mwyn cywiro diffygion, megis mewn Technoleg Gwybodaeth.

Cymorth Ariannol

Byddai 34% o'n haelodau'n cefnogi Cyfnewidfa Stoc i Gymru, gyda 22% ddim yn gwybod. Byddai 21% o'n haelodau'n ystyried cyhoeddi cyfranddaliadau eu busnes naill ai yn y tymor byr neu'r tymor hir, gan gynnwys 12% a fyddai'n ystyried hynny petaent yn gallu cael at y cymorth a'r cyngor iawn.

- Dylai Llywodraeth Cymru gyflawni astudiaeth ddichonoldeb i sefydlu cyfnewidfa stoc a fyddai'n seiliedig ar economi Cymru, er mwyn darparu modd arall o ecwiti yn ogystal â hyrwyddo a datblygu economi gystadleuol gref yng Nghymru.

- Mae ar fusnesau angen benthyciadau gwirioneddol 'feddal' sy'n hawdd cael atynt, gyda phenderfyniadau cyflym yn cael eu gwneud heb orfod cyflwyno ymrwymiad cyfochrog personol afresymol.

- Mae angen i Lywodraeth Cymru gynnal astudiaeth gwmpasu ynghylch pa gyllid sydd ar gael i fusnesau, o bob ffynhonnell, er mwyn adnabod bylchau mewn cyllid ar gyfer anghenion busnesau bach. Dylai argymhellion o'r prosiect cwmpasu gynnwys awgrymiadau ar sicrhau cyllid ar gyfer cyfalaf gweithio, sy'n hanfodol i fusnesau bach a chanolig er mwyn goroesi, yn ogystal â chyfalaf twf.

- Dylai awdurdodau lleol edrych ar ffyrdd o ddefnyddio eu cronfeydd wrth gefn fel benthyciadau llif arian i fusnesau bach, gan y gallai hyn fod yn fwy hyblyg na chyllid Ewropeaidd.

Cymorth Gwyrdd

Teimla'r mwyafrif o fusnesau (54%) y dylai ynni adnewyddadwy gael ei flaenoriaethu ar gyfer buddsoddi yng Nghymru, ac mae ynni morol (tonnau a'r llanw) yn cael ei ffafrio'n neilltuol fel ffynhonnell (28%). Mae aelodau'n credu na fydd bod yn fwy cyfrifol yn amgylcheddol yn cael unrhyw effaith ar eu busnes (49%), fodd bynnag mae 26% yn credu y bydd yn cael effaith gadarnhaol a dim ond 12% sy'n credu y bydd yn cael effaith negyddol. Y prif effeithiau a ystyrir fel rhai cadarnhaol yw denu/cynyddu sylfaen o gwsmeriaid o ganlyniad i 'enw da gwyrdd' (51%) ac arbedion cost trwy well effeithlonrwydd adeiladau (41%) a phrosesau busnes mwy effeithlon (38%). Mae 27% o fusnesau hefyd yn gweld potensial am arbedion cost trwy gyflwyno cynllun feicro-gynhyrchu. Mae angen i fwy o wybodaeth gael ei ddarparu ynghylch pa gyfleoedd gwyrdd cadarnhaol sydd yna i fusnesau bach.

Dylai cymorth penodol gynnwys;

- Cymorth ar gyfer Ymchwil a Datblygu technolegau newydd ynghyd â phroses fasnachu effeithiol.
- Dylai newidiadau sy'n llesol i'r amgylchedd gael eu heithrio o gyfrifiadau gwerth trethiannol.
- Adnabod a blaenoriaethu meysydd lle gellir cael y mwyaf o effaith a gweithredu i symbylu galw mewn meysydd allweddol, e.e. gwella'r stoc dai bresennol yng Nghymru.
- Rhaglenni hyfforddi sy'n canolbwyntio ar gyflenwi'r galw am swyddi gwyrdd.
- Cyfundrefn ariannol gefnogol i fuddsoddi mewn buddsoddiadau llesol i'r amgylchedd.
- Datblygu safon Draig Werdd gadarn gyda chymorth cryf gan Lywodraeth Cymru ac integreiddio hyn i bolisi caffael cyhoeddus.
- Pwyslais amlwg ar wella'r ôl-troed carbon o fewn cadwynau cyflenwi o fewn Cymru.
- Cyfarwyddyd, arweiniad a chydlynu clir yng Nghymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer camau gweithredu i leihau allyriadau carbon deuocsid.
- Adolygiad o'r system gynllunio er mwyn galluogi ymateb mwy hyblyg i sialensiau newid yn yr hinsawdd.
- Dylid ymgorffori ailgylchu i fusnesau o fewn targedau gwastraff Awdurdodau Lleol.
- Mae angen i'r cynllun amaeth-amgylcheddol Glastir gael ei adolygu a'i wella'n sylweddol os yw am fod yn ddeniadol i ffermwyr. Mae angen cynllun ategol i arwain a chefnogi ffermwyr wrth arallgyfeirio eu cynnyrch mewn ymateb i'r newid yn yr hinsawdd.

Cymorth Caffael

Mae dros hanner yr aelodau'n gwybod am GwerthwchiGymru fel gwasanaeth, ac mae 1 mewn 4 wedi ei ddefnyddio. Fodd bynnag mae 43% nad ydynt yn ymwybodol ohono a chanolig yw'r graddau a roddwyd gan y rhai sydd wedi ei ddefnyddio (28% gweddol dda a 30% ddim yn dda nac yn wael).

- Mae angen i'r gwasanaeth hwn barhau i wella'r hyn y mae'n ei gynnig i fusnesau bach a mynd ati o ddifrif i hyrwyddo'i wasanaethau i'r sector busnesau bach.
- Mae angen i gymalau cymdeithasol gael eu hystyried lle bo hynny'n briodol er mwyn sicrhau bod busnesau mawr yn talu'n brydlon i gyflenwyr ail a thrydedd reng.
- Dylai'r arferiad gan Awdurdodau Lleol o 'glystyru' contractau caffael gael ei fonitro o safbwynt ei effaith ar gyfleoedd i fusnesau bach a chanolig lleol.
- Mae angen i lwyddiant yr holiadur cyn-cymhwyso (SQUID) sy'n cael ei ddatblygu gael ei fonitro o safbwynt ei effaith ar fusnesau bach a chanolig.
- Mae angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ddarparu cymorth i gynyddu cyfleoedd caffael preifat, hynny yw, busnes i fusnes. Er enghraifft, hyrwyddo defnydd y sector preifat o GwerthwchiGymru.
- Mae'n hanfodol sicrhau'r fantais orau o wario cyhoeddus trwy gadwynau cyflenwi yng Nghymru, hynny yw, mapio'r gadwyn gyflenwi i dargedu unrhyw fwlch.

Cymorth yn erbyn Troseddau

Mae troseddau yn erbyn busnes yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad economaidd yng Nghymru. Rydym yn awyddus i weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod modd gweithredu darnau sylweddol o waith, megis Prosiect Diogelwch Busnesai Cymru, er gwaethaf y cyfyngiadau ar gyllid. Yr hyn yr hoffai'r FSB ei weld yw:

1. Mesurau atal troseddau i gael eu heithrio o gyfrifiadau gwerth trethiannol; oherwydd fel arall mae'n anghymhelliad i ddiogelu safleoedd.

2. Dylid sefydlu Uned Troseddau yn erbyn Busnesau Cymru, fel y trafodwyd ym mhrosiect Diogelwch Busnesau Cymru i edrych ar faterion fel;

- Ymgyrch weithredol i annog busnesau i adrodd am bob trosedd bob amser.
- Heddweision dynodedig wedi eu neilltuo i ganolbwyntio ar droseddau yn erbyn busnes.
- Cydgysylltu gwaith presennol, megis Uned E-Droseddu Llywodraeth Cymru a fforwm Cymru yn erbyn Troseddau Busnes.
- Creu un ffynhonnell ddibynadwy i fusnesau gael at wybodaeth ynghylch cyngor, trwy Wefan Uned Troseddau yn erbyn Busnesau Cymru a digwyddiadau.
- Prin yw'r ddealltwriaeth ar hyn o bryd o'r mathau o droseddau yn erbyn busnes a'r effaith y maent yn eu cael. Mae angen diffiniad clir a system gofnodi ar gyfer y mathau hyn o droseddau.
- Mae angen gwell hyfforddiant i heddluoedd ar fynd i'r afael â throseddau yn erbyn busnesau er mwyn gwella eu dealltwriaeth o'r canlyniadau a chynyddu sensitifrwydd tuag at berchnogion a staff busnesau bach a chanolig yr effeithiwyd arnynt.

Cymorth Manwerthu

Mae'r sector manwerthu wedi cael ei anwybyddu ers amser maith fel maes ar gyfer cymorth busnes gweithredol, er gwaetha'r ffaith ei fod yn allweddol i economïau lleol bywiog, ac yn cyfrannu at iechyd busnesau eraill, megis twristiaeth, yn ogystal â darparu gwasanaethau i gymunedau lleol. Mae hyrwyddo siopa lleol hefyd yn llesol i'r amgylchedd. Fel all fod rhai siopau amlwladol mawr wedi profi twf dros y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw hyn yn wir am siopau annibynnol bach.

Mae angen datblygu Strategaeth Fanwerthu i Gymru, a fydd yn cynnwys;

- Dylai asesiad annibynnol o'r effaith ar fanwerthu fod yn orfodol ar gyfer pob datblygiad archfarchnad o fewn Cymru.
- Sicrhau bod darparu unedau manwerthu fforddiadwy neu gymorthdaledig yn cael ei wneud yn amod mewn datblygiadau siopau newydd.
- Dylai datblygiadau sylweddol o dai asesu mwynderau lleol a chynnwys ynddynt gynlluniau ar gyfer gwasanaethau manwerthu sylfaenol fel siopau lleol, a dylai seilwaith lleol fod yn amod datblygiad o'r fath os bydd angen.
- Dylai siopau elusennol sy'n gwerthu nwyddau newydd fod yn gorfod talu trethi busnes.
- Dylid cyflawni adolygiadau rheolaidd o ganol trefi er mwyn mesur bywiogrwydd yr economi leol. Dylid defnyddio'r rhain i'w bwydo i Gynlluniau Datblygu Lleol.
- Darpariaeth cymorth busnes i ystyried asesiadau manwerthu seiliedig ar 'siopwr dirgel', a chynnwys hyfforddiant a chyngor.
- Dylai fod cefnogaeth weithredol i siopau lleol, gan gynnwys siopau stryd fawr lleol a siopau fferm. Gallai'r hyrwyddo fod yn ffurf cyfeirlyfr siopa ar-lein a dyddiau cynnyrch Cymreig, er mwyn hyrwyddo gwerthiant cynnyrch Cymreig a'r defnydd ohono o fewn busnesau.
- Dylai fod cefnogaeth ar gyfer datblygu Cynllun Siopau Gwledig a Chymunedau Gwledig er mwyn sicrhau parhau ac ailagor siopau pentref yng nghanol ein cymunedau.
- Awdurdodau Cynllunio i gael canllawiau polisi cryfach gan Lywodraeth Cymru er mwyn gallu gwrthsefyll pwysau am ddatblygiadau mawr, a diogelu busnesau bach cynhenid.

Cymorth Seilwaith

Mae enw drwg i seilwaith Cymru ac mae angen cynllunio hirdymor ar gyfer y seilwaith, gyda chyllidebau sy'n rhai hirdymor a hyblyg i wireddu hyn, a rhaid peidio â chyfyngu'r meddwl i ddwyrain gorllewin neu ogledd de.

- Os yw Tollau Hafren am barhau, yna mae angen i'r arian gael ei ddosrannu rhwng San Steffan a Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac i'r arian gael ei neilltuo ar gyfer uwchraddio seilwaith Cymru.
- Dylid uwchraddio'r A483/A5, gyda chefnogaeth o Loegr.
- Mae angen strategaethau hirdymor ar gyfer lliniaru'r M4, gan nad yw prosiectau uwchraddio'n ddim byd ond atebion byrhoedlog ar hyn o bryd.
- Mae angen i drydaneiddio rheilffyrdd Cymru gael ei roi ar waith.
- Mae ar yr A470 angen lonydd pasio rheolaidd er mwyn diogelwch a gwella'r teithiau arni.
- Mae angen cymorth i fusnesau wella'r cynlluniau teithio, gan gynnwys ffyrdd lleol.
- Mae angen gwella system grid Cymru i safon a fydd yn cefnogi bwydo meicro-gynhyrchu lleol iddi ac a fydd yn rhoi sicrwydd cyflenwad.
- Mae angen gwell cynllunio trafnidiaeth gyhoeddus, ar y cyd â chwmnïau bysiau lleol, i ddiwallu galw lleol. Dylid defnyddio amserlennu 'ar gais', yn enwedig yn ystod adegau brig y tymor ymwelwyr.
- Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ddatblygu cynllun strategol defnydd tir i gefnogi datblygiad economaidd.

Cymorth Trethi

Trethi busnes yw'r gwariant trydydd uchaf i fusnesau bach, ac yn aml gall fod y dreth fwyaf cymhleth i'w deall o safbwynt sail ar gyfer cyfrifiadau.

- Llywodraeth Cymru i weithio gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio (VOA) i sicrhau nad yw ardaloedd daearyddol sy'n tyfu i ddod yn llwyddiannus yn cael eu cosbi'n niweidiol am hyn trwy'r cyfrifiadau trethi. Mae hyn yn anghymhelliad i ardaloedd gynyddu bywiogrwydd eu prif strydoedd.
- Dylai trethi busnes fod o fewn portffolio'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth.
- Dylid rhoi dadansoddiad i fusnesau o'r hyn y gwerir eu trethi arno, fel y gellir dangos gwerth am arian.

Proffil Aelodaeth FSB Cymru

Mae Arolwg Blynyddol 'Llais Busnesau Bach' FSB-ICM a gyhoeddwyd ar ddechrau 2010 yn rhoi darlun o'r busnes nodweddiadol yng Nghymru:

Mae'r mwyafrif o aelodau yng Nghymru'n masnachu'n agos at eu busnes. Mae tri rhan o bump (60%) o werthiannau blynyddol gyda chwsmeriaid yn eu hardal leol, tra bod chwarter (25%) gyda chwsmeriaid mewn rhan arall o'u rhanbarth. Mae dros chwarter (28%) o werthiannau blynyddol gyda chwsmeriaid yng ngweddill y Deyrnas Unedig. Lle bynnag y bo lleoliad y gwerthiannau, mae 11 y cant o fasnach aelodau'n deillio o e-fasnach.

Mae busnesau aelodau Cymru'n fwyaf tebygol o fod yn y sectorau manwerthu ac adeiladu, gyda gwasanaethau busnes, y diwydiant lletygarwch a gweithgynhyrchu'n dilyn ar ôl hynny. Mae'r math o fusnes y mae aelodau Cymru'n ymwneud ag ef yn amrywio yn ôl lleoliad trefol neu wledig. Er bod manwerthu wedi ei ledaenu'n gyson ledled y wlad, mae gwasanaethau busnes, gweithgynhyrchu, gwaith iechyd/cymdeithasol a gwasanaethau personol yn fwy cyffredin ymysg aelodau trefol. I'r gwrthwyneb, mae aelodau gwledig yn fwy tebygol o weithio yn y diwydiannau lletygarwch, amaethyddiaeth/pysgota a hamdden/ chwaraeon.

Mae aelodau yng Nghymru, ar gyfartaledd, wedi bod yn berchnogion neu'n gydberchnogion eu prif fusnes ers 15.7 blynedd, sy'n sylweddol uwch na'r ffigur am y Deyrnas Unedig (14.4 blynedd). Mae aelodau gwledig yng Nghymru wedi bod yn berchnogion eu busnes yn hirach na rhai mewn ardaloedd trefol (17.1 mlynedd o gymharu â 14.3 mlynedd). Mae dros ddau o bob pump (44%) o brif fusnesau aelodau'r FSB yng Nghymru'n cael eu dosbarthu fel cwmnïau cyfyngedig ac mae traean (34%) o aelodau'n unig fasnachwyr / unig berchnogion. Er bod un o bob pump (18%) wedi eu cyfansoddi fel partneriaeth, nid yw partneriaethau ymrwymiad cyfyngedig ond yn cyfrif am un o bob cant.

Mae'r sector preifat wedi cyfrif am saith rhan mewn deg (71%) o werthiannau aelodau yn ystod y 12 mis diwethaf. Mae dau mewn pump (41%) o aelodau'n dweud bod eu busnes wedi cyflenwi nwyddau a/neu wasanaethau i'r sector cyhoeddus yn ddiweddar: awdurdodau lleol (35%) ac ysgolion/ prifysgolion/colegau (23%) yw'r cyrchfannau mwyaf tebygol, gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (12%) yn dilyn.

Fel sy'n gweddu i sefydliad sy'n cynrychioli perchnogion busnesau bach a'r hunangyflogedig, trosiant cymedrig prif fusnes aelodau'r FSB dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yw tua £458,000. Cymedr y Deyrnas Unedig yw £525,000. Yn yr eithafion, fe wnaeth un o bob pump drosi llai na £50,000 a saith y cant drosi mwy na £1 miliwn.

Mae gweithlu cyfartalog aelodau'r FSB yng Nghymru'n sefyll ar 8.72 ar hyn o bryd, sy'n fwy na'r nifer cymedrig ledled y Deyrnas Unedig (7.35), ond yn llai na'r hyn sy'n cymharu â 12 mis yn ôl (10.14). Yn fwy arwyddocaol, er bod aelodau'r Deyrnas Unedig yn disgwyl rhywfaint o adfywiad dros y flwyddyn sy'n dod, mae aelodau yng Nghymru'n disgwyl cyflogi llai o staff ymhen 12 mis (gweithlu cyfartalog o 7.72 o gymharu â 8.72 ar hyn o bryd).

"Os fyddai pob BBaCh yng Nghymru'n creu un swydd ychwanegol, byddai hyn yn rhoi cyfle i bob person sydd yn edrych am waith yng Nghymru"

Cefnogi Busnes Bach;
Cefnogi Twf Cynaliadwy.

Ffederasiwn y Busnesau Bach yng Nghymru
1 Tŷ Cleeve
Cilgant Lambourne
Llanishen
Caerdydd
CF14 5GP

www.fsb.org.uk/cymru
Ffôn: 02920 747406
Ffacs: 02920 747595